Cronfa Hyfforddiant Dramor Clwb Alpaidd Awstria

Mae gan y Bartneriaeth Awyr Agored gyfle gwych ar gyfer pobl ifanc rhwng 18-25 oed i gael profiad o fynyddoedd yr Alpau, Awstria . Awst 23ain—29ain 2015
Byddem yn ariannu taith o wythnos i 10 o bobl ifanc i'r Alpau Stubai yn Awstria trwy garedigrwydd Clwb Alpaidd Awstria. Bydd y daith yn cynnwys prydau llawn a llety mewn cytiau traddodiadol.

Cewch y cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gan gynnwys dringo creigiau, abseilio, dringo mynyddoedd sy'n uwch na 3000m, gwifrau sip a.y.y.b

Bydd yr holl weithgareddau yn cael eu harwain gan dywyswyr mynydd profiadol yr IFMGA

Nid yw costau teithio i Innsbruk, yswiriant teithio ac aelodaeth CAA (AAC) yn cael eu cynnwys*

Dyddiad cau i geisiadau : Ionawr…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Tachwedd 14, 2014**

Gwirfoddolwr y mis: Kevin Owen

Y mis yma rydym ni wedi cyflwyno gwobr Gwirfoddolwr y Mis i Kevin am ei deyrngarwch di-ben-draw i lawer o glybiau lleol y Bartneriaeth Awyr Agored. Mae Kevin yn aelod o Glwb Padlo Dyffryn Conwy a Chlwb Padlo Eryri ac mae'n caiacio'n rheolaidd.

Mae Kevin yn gaiaciwr selog a brwdfrydig ac mae'n bachu ar bob cyfle i helpu gyda digwyddiadau o bob math. Roedd yn gefn anhygoel i ni yn ystod y cystadlaethau caiacio i ysgolion ar Ynys Môn. Bu iddo hyd yn oed gymryd amser o'i waith i helpu gyda'r digwyddiad. Roedd o ar y cwch diogelwch drwy'r dydd ar ddiwrnod y gystadleuaeth, a hynny ar drugaredd y gwynt a'r tonnau.

I ddiolch iddo am ei ymdrech a'i holl waith caled, dyma gyflwyno iddo fo wobr…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Tachwedd 14, 2014**

Merched a'r Awyr agored

Yn ôl ymchwil diweddar gan brifysgol Bangor ar ran y Bartneriaeth Awyr Agored (Chwefror 2013), canfuwyd bod y nifer o ferched mewn cyflogaeth fel hyfforddwyr neu mewn

Digwyddiadau

- Ras Antur Grwp Llandrillo Menai
  Tachwedd 26, 2014
- Cwrs Cymorth cyntaf REC (Achub...
  Ionawr 24, 2015

Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth. ›

swyddi rheolaethol yn isel (24%) i gymharu â'r dynion lle gwelwyd bod dros ¾ o'r hyfforddwyr llawn amser yn wrywod.

Gofynnwn i chi fod o gymorth i ni symud ymlaen i wneud gweithio yn y maes awyr agored yn fwy atyniadol ac yn haws cyrraedd i ferched yn yr ardal. Cwblhewch y ffurflen isod a'i ddychwelyd atom drwy ddefnyddio'r manylion a nodir.

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Tachwedd 14, 2014**

Mentora Mynydd i ddeg o bobl

Bydd cyfle i 10 unigolyn gael datblygu eu sgiliau mynydda a dringo dros gyfnod o 6 wythnos gyda'r cyfle i ennill cymwysterau cydnabyddedig yn yr awyr agored.
Cewch ddysgu'r sgiliau hanfodol megis mordwyo, fflora a ffawna, daeareg, gwaith rhaff a sgiliau dringo.

Cysylltwch ag Owain Williams, Cydlynydd y Prosiect ar 01690 720166 neu ymwelwch â www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau –Rhagfyr 17eg 2014

Dyddiad cychwyn – 12fed o Ionawr 2015

Lleoliad – Capel Curig, Conwy. LL24 0ET

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Tachwedd 10, 2014**

Pencampwriaeth Caiacio Ysgolion Gogledd Cymru 5X60 2014

Fis Medi a Hydref 2014 cynhaliwyd Pencampwriaeth Caiacio Ysgolion Gogledd Cymru eto, wedi'i threfnu gan gynlluniau 5x60 lleol, Canŵ Cymru a'r Bartneriaeth Awyr Agored.
Cafwyd rowndiau dalgylch yn gyntaf ble roedd tri grŵp o blant yn cystadlu dros eu hysgolion. Y tri dalgylch oedd: Gogledd Gwynedd, De Gwynedd a Môn. Roedd rownd cylch Môn yn harbwr Caergybi, rownd cylch De Gwynedd yng Nglan-llyn ger y Bala, a rownd cylch Gogledd Gwynedd yn Llyn Padarn, Llanberis. Roedd pob cystadleuydd yn cystadlu mewn ras unigolion ac mewn ras gyfnewid slalom.

Âi enillwyr pob dalgylch ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol yn Llyn Padarn er mwyn ceisio ennill yr holl bencampwriaeth yn erbyn enillwyr y…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Tachwedd 10, 2014**

Llwyddiant Tim Ceufadu Ysgol y Moelwyn

Bu tîm ceufadu Ysgol y Moelwyn yn hynod lwyddiannus yn ddiweddar, yn cynrychioli De Gwynedd yn rownd derfynol Cystadleuaeth Ceufadu 5x60 Ysgolion Gogledd Cymru. Yn y rownd derfynol, daeth y tîm yn gyntaf yn eu categori - yn y cystadleuaeth

tîm, a Gruff Dafydd fel yr enillydd unigol yn y gystadleuaeth K1.

Dros wyliau'r haf, roedd y tri bachgen yn y tim, Gruff, Carwyn Davies a Dafydd Edwards wedi ennill lle ar Gynllun Thomas Howell-cwrs yn cael ei redeg ym Mhlas y Brenin, lle mae cyfle i bobl ifanc leol, gael mynychu cwrs preswyl 5 diwrnod a derbyn hyfforddiant arbennigol yn eu maes nhw, am bris gostyngedig iawn. Mae'n amlwg i'r cynllun fod yn llwyddianus, ac i'r bechgyn wneud y mwyaf o'u...

Mwy ›

Ysgrifennwyd ar **Tachwedd 10, 2014**

Y Bartneriaeth Awyr Agored, Bwthyn Carnedd, Plas y Brenin, **Capel Curig** Conwy, LL24 0ET. Tel: 01690 720106

info@outdoorpartnership.co.uk
www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk